# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD IAU, 15 MAI 2025

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Medwyn Hughes, Nia Jeffreys, Elwyn Jones, June Jones, Anne Lloyd-Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Gwynfor Owen ac Ioan Thomas, Menna Trenholme

**Swyddogion:** Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol), Annes Sïon (Arweinydd Tîm Gwasanaethau Democratiaeth) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd**: Cynghorydd Dilwyn Morgan - Aelod Cabinet Oedolion , Iechyd a Llesiant

## 1. ETHOL CADEIRYDD 2025 - 2026

Cynigwyd ac eiliwyd ethol y Cynghorydd Ioan Thomas yn Gadeirydd

Cynigiwyd ac eiliwyd ethol y CYnghourdd Beth Lawton yn Gadeirydd

Pleidleisiwyd ar y cynigion

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Ioan Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2025/26**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD 2025 - 2026

Cynigiwyd ac eiliwyd ethol y Cynghorydd Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd

Pleidleisiwyd ar y cynnig

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Medwyn Hughes yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2025/26.**

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Annwen Hughes, Dafydd Meurig, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a Rob Triggs; y Prif Weithredwr Dafydd Gibbard

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 5. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9fed o Ebrill 2025 fel rhai cywir

Yn dilyn marwolaeth annisgwyl Mrs Sharon Warnes, cymerodd y Cadeirydd y cyfle i gydymdeimlo a'i theulu. Nodwyd bod Sharon wedi bod yn swyddog gyda'r Cyngor ac yn ddiweddar yn Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chyn Aelod o'r Bwrdd Pensiwn; yn berson parchus a chydwybodol ac y bydd colled ar ei hol.

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 8. CYFWELD YMGEISWYR AR GYFER SWYDD PENNAETH OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

a) Cadarnhawyd trefn y diwrnod gyda'r Aelodau.

b) Cyfwelwyd dau ymgeisydd ar gyfer y swydd Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant

c) Gwahoddwyd yr ymgeiswyr i roi cyflwyniad rhwng 10 a 15 munud ar y testun,' Beth yw'r prif gyfleoedd sy'n wynebu'r Adran Oedolion dros y blynyddoedd nesaf a sut fyddech yn mynd i'r afael a hwy?

Ymatebwyd i bum cwestiwn ffurfiol a ofynnwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Ioan Thomas, ynghyd a chwestiynau dilynol gan yr Aelodau.

Gwahoddwyd Mr Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasaethau Cymdeithsaol), i gyflwyno adborth cryno o berfformiadau'r ddwy ymgeisydd mewn cyfres o ymarferion cyn cyfweld. Cyflwynwyd canlyniadau profion ac ymarferion a gwblhawyd, ymateb i gyfweliadau proffesiynol ac i gyfweliad gyda phanel defnyddwyr gwasaneth yng Gwynedd a chyfweliad gyda dau Aelod Cabinet.

Gwahoddwyd y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, i gyflwyno sylwadau ar berfformiad yr ymgeiswyr yn y cyfweliad.

ch) Cynigiwyd ac eiliwyd bod y swydd yn cael ei chynnig i Mrs Mari Wynne Jones.

**PENDERFYNWYD penodi Mrs Mari Wynne Jones i'r swydd Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.30 y.h.

**CADEIRYDD**